# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth
Y Comisiwn Ewropeaidd

30 Ionawr 2012

**Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin - ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am gasgliadau cychwynnol yr ymchwiliad rydym yn ei gynnal yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae ein sylwadau'n seiliedig ar dystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid yng Nghymru, a rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd gyda swyddogion y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar amaethyddiaeth ym mis Tachwedd y llynedd.

Rydym wedi nodi nifer o feysydd lle hoffem weld newidiadau i'r testunau, yn ogystal â chynnig rhai awgrymiadau penodol i Senedd Ewrop (a Phwyllgor y Rhanbarthau) ar gyfer gwelliannau lle rydym wedi cytuno ar y newidiadau rydym am eu gweld i eiriad y rheoliadau draft (fe'u nodir yn atodiad A).

Hyderaf y byddwch yn eu hystyried yn eich trafodaethau cyfredol gyda Chyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop ar y cynigion deddfwriaethol drafft.

Sylwadau aelodau 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen' trawsbleidiol yw'r sylwadau a nodir yn y llythyr hwn. Sefydlwyd y grŵp hwn gan Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i ystyried y cynigion i ddiwygio'r PAC a'u heffaith posibl ar Gymru.

Mae'r sylwadau hyn wedi'u seilio ar dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gafwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys cyrff amaethyddol, cyrff amgylcheddol a grwpiau eraill, ac a gasglwyd yn ystod ein hymchwiliad ers cyhoeddi'r cynigion. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein os ewch i: Grŵp Gorchwyl a Gorffen PAC.

Yn benodol, nodwyd pum maes blaenoriaeth yn ystod cam cyntaf y gwaith a chredwn y dylid newid testun y rheoliadau drafft sy'n ymwneud â nhw:

- sicrhau bod trefniadau digonol a theg ar waith yn ystod y cyfnod pontio cyn i wledydd fabwysiadu'r taliadau'n seiliedig ar arwynebedd o

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

E-bost / Email: ES.comm@wales.gov.uk

dan Golofn 1: rydym o blaid cynyddu'r amserlen arfaethedig o bum mlynedd i o leiaf saith mlynedd; a rhoi hyblygrwydd i'r aelod-wladwriaethau / rhanbarthau benderfynu pa mor gyflym y byddant yn cyflwyno newidiadau;

- sicrhau bod y cynigion i hyrwyddo materion gwyrdd o dan Golofn 1 yn ddigon hyblyg i ystyried cyd-destun amgylcheddol ac amaethyddol pob aelod-wladwriaeth /rhanbarth unigol;
- sicrhau bod cyllid Datblygu Gwledig yn cael ei ddosbarthu'n deg o dan Golofn 2;
- sicrhau nad yw'r cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermwyr Bychain yn niweidiol i'r amgylchedd nac i'r gystadleuaeth rhwng ffermydd drwy sicrhau bod y Cynllun yn ddewisol i'r aelod-wladwriaethau a sicrhau bod y ffermwyr sy'n ymuno â'r Cynllun hwn yn bodloni gofynion trawsgydymffurfio;
- sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad i'r diwydiant amaethyddol, nid dim ond y rheini dan 40 oed, yn cael eu cefnogi a'u hannog drwy ganiatáu iddynt gael cymorth ariannol o dan y Cynllun Ffermwyr Ifanc.

Yn ogystal â'r meysydd blaenoriaeth, mae gennym sylwadau ac awgrymiadau ynglŷn â gwella elfennau eraill y cynigion, gan gynnwys y rhai'n ymwneud â: ffermwyr actif; hyblygrwydd rhwng colofnau; ardaloedd â chyfyngiadau naturiol; gwariant sylfaenol ar yr amaeth-amgylchedd; symleiddio; a thrawsgydymffurfio.

Mae rhagor o fanylion am y materion hyn a'r meysydd allweddol i'w gwella a nodir uchod, i'w cael yn y papur sydd ynghlwm sy'n cyflwyno'n canlyniadau allweddol.

Byddwn yn parhau i fonitro hynt y cynigion yn ystod y trafodaethau, gan gynnwys y trafodaethau tyngedfennol yn Senedd Ewrop. Gobeithio y gallwn drafod y materion hyn â chi (ac unrhyw bwyntiau ychwanegol sy'n codi yn y cyfamser) pan fyddwn yn ymweld â Brwsel ar ddiwedd mis Mawrth.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething**
**Cadeirydd**

## Atodiad 1

## Prif Ganlyniadau ymchwiliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y PAC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**RHEOLIAD TALIADAU UNIONGYRCHOL**

**MEYSYDD ALLWEDDOL SY'N PERI PRYDER:**

**Y cynllun taliadau sylfaenol (Erthyglau 18-22)**

Un o'r materion tyngedfennol i'r sector amaethyddol yng Nghymru yw'r trefniadau pontio wrth i Gymru drosglwyddo o'r system daliadau hanesyddol i'r system daliadau'n seiliedig ar arwynebedd. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr fod angen newid y rhain. Rydym yn rhannu'r pryderon hyn ac yn ystyried bod hwn yn fater hollbwysig. Dyma un o flaenoriaethau allweddol y Grŵp o ran ceisio gwella'r cynigion deddfwriaethol.

Mae ein pryderon yn seiliedig ar ddau brif fater; hyd y cyfnod pontio a chyflymder y newidiadau.

Yn ogystal â hyn, rydym yn teimlo y dylid cynnig amserlen yn hytrach na dyddiad penodol. Rydym yn pryderu y gallai unrhyw oedi cyn cytuno'n derfynol ar y cynigion deddfwriaethol roi llai o amser i'r aelod-wladwriaethau / rhanbarthau baratoi ar gyfer mabwysiadu'r system daliadau newydd.

Mewn perthynas â chyflymder y newidiadau, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau gwaith modelu sy'n dangos mai dim ond 17 y cant o ffermwyr Cymru fydd yn parhau i dderbyn taliadau a fydd o fewn 10 y cant o'u taliadau presennol ar ôl mabwysiadau'r system daliadau newydd. Felly, pe bai 40 y cant o'r taliadau'n newid yn ystod y flwyddyn gyntaf, byddai effeithiau sylweddol ar ffermwyr Cymru o ran ailddosbarthu. Byddai maint newidiadau o'r fath mewn un flwyddyn creu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd mawr yn y diwydiant.

Y gwelliannau a gynigir:

- dylid newid Erthygl 22.2 i roi hyblygrwydd i'r aelod-wladwriaethau / rhanbarthau unigol benderfynu pa mor gyflym y maent am gyflwyno newidiadau, cyhyd â bod hyn yn caniatáu iddynt gwblhau'r newidiadau erbyn diwedd y cyfnod pontio.
- dylai Erthygl 22.5 ddarparu ar gyfer cyfnod pontio o saith mlynedd o'r adeg y caiff y testunau deddfwriaethol eu mabwysiadu.

**Hawliau (Erthyglau 21-22)**

Clywsom dystiolaeth ddiddorol a chadarn iawn am effaith y cynigion i newid y ffyrdd o ddyrannu hawl i daliadau. Rydym wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â rhagor o waith modelu yng nghyswllt hawlio taliadau

a'r gwahanol ddewisiadau a gynigir a'i bod yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ei thrafodaethau ar y cynigion.

**Taliadau am arferion amaethyddol sydd o fudd i'r hinsawdd a'r amgylchedd ('taliadau gwyrdd') Erthyglau 29-33**

Yn y dystiolaeth a glywsom, roedd rhaniad clir rhwng y rhai a oedd yn gefnogol i daliadau gwyrdd o ran egwyddor a'r rhai a oedd yn fwy amheus. Fodd bynnag, roedd yr holl ymatebwyr bron yn anfodlon â'r cynigion fel y'u drafftiwyd, ac roeddynt am weld newidiadau sylweddol. Mae hyn yn flaenoriaeth allweddol i'r Grŵp Gorffen a Gorchwyl.

Rydym yn cytuno â'r holl ymatebwyr fod y cynigion presennol, fel y'u drafftiwyd, yn anymarferol. Mae'n prif bryderon yn ymwneud â'r amodau'n ymwneud â'r:

- diffiniad o borfa barhaol;
- gofynion cylchdroi cnydau
- gofyniad bod angen i 7% o'r tir fod yn ardal ecolegol (EFA)

Nid ydym yn teimlo'u bod yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gwahaniaeth rhwng yr aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau unigol o ran hinsawdd amgylcheddol a chyd-destun amaethyddol.

Dywedodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, cynghorwr statudol Llywodraeth Cymru ar gadwraeth natur, y gallai'r gofynion presennol arwain at sefyllfaoedd disynnwyr yng Nghymru. Roedd nifer o'r tystion o'r un farn. Er enghraifft, ni fyddai'r diffiniad o Ardal Ecolegol yn cynnwys rhai tiroedd yng Nghymru sydd â budd amgylcheddol, fel tir fferm a ddiffinnir fel tir nad yw'n gynhyrchiol.

O ystyried y dystiolaeth a glywsom, rydym yn teimlo bod dadl gref dros ehangu'r dewisiadau gwyrdd, a chynnig mwy o hyblygrwydd i ffermwyr unigol fedru dewis bodloni'r gofynion gwyrdd yn y ffordd sydd fwyaf addas i'w fferm nhw, ac i gyd-destun amgylcheddol eu fferm. Mae'n hanfodol felly fod yr aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau'r cael mwy o hyblygrwydd nag a gynigir yn y cynigion presennol i sicrhau bod y gofynion gwyrdd yn addas ar gyfer anghenion amgylcheddol ac amaethyddol penodol eu hardal. A bwrw bod cysondeb drwy'r aelod-wladwriaethau yn rhan bwysig o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, rydym yn argymell y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd greu fframwaith cyffredin o flaenoriaethau i ganiatáu i'r aelod-wladwriaethau/rhanbarthau  gynnig cyfres o ddewisiadau gwyrdd sy'n berthnasol iddyn nhw.

Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru o blaid eithrio ffermwyr sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol rhag y gofynion gwyrdd, yn yr un modd ag y mae'r cynigion yn eithrio ffermwyr organig. Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn greu problemau o ran talu ddwywaith am yr un peth, rydym yn sicr yn credu bod yr awgrym hwn yn haeddu ystyriaeth fanwl ac

rydym wedi annog Llywodraeth Cymru i drafod hyn ymhellach gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. I sicrhau y byddai hyn yn arwain at y buddion amgylcheddol y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn galw amdanynt, rydym yn cynnig bod yn rhaid i unrhyw gynllun amaeth-amgylcheddol cymwys arwain at lefel sylfaenol o fuddion amgylcheddol a bennir gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Gwelliannau a gynigir:

- cynnwys erthygl newydd: dylai ffermwyr sy'n rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol gymhwyso'n awtomatig am daliadau gwyrdd os yw'r cynllun amaeth-amgylcheddol yn arwain at y lefel sylfaenol o fuddion amgylcheddol a bennir gan  y Comisiwn Ewropeaidd.
- Dylid rhoi hyblygrwydd i'r aelod-wladwriaeth /rhanbarthau fabwysiadu cyfres o ddewisiadau gwyrdd sy'n ystyried amgylchiadau cenedlaethol a rhanbarthol yng nghyd-destun fframwaith sy'n cwmpasu'r blaenoriaethau a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.

**MEYSYDD ERAILL SY'N PERI PRYDER:**

**Ffermwr actif (Erthygl 9)**

Yn gyffredinol, roedd y dystiolaeth a gawsom yn gefnogol i'r egwyddor o dargedu taliadau uniongyrchol at y rheiny roedd eu prif ffynhonnell incwm yn deillio o waith amaethyddol. Fel grŵp, rydym ninnau'n cefnogi'r egwyddor hon. Fodd bynnag, roedd cryn bryder am y diffiniad a gynigiwyd, lefel y fiwrocratiaeth a fyddai ynghlwm wrtho, a'r posibilrwydd y gallai ffermwyr sydd wedi dargyfeirio'u busnes gael eu cosbi. Roedd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yng Nghymru yn pryderu'n arbennig am y pwynt olaf ac yn teimlo y gallai amharu'n annheg ar y ffermwyr hynny a oedd wedi dargyfeirio'n llwyddiannus drwy ddefnyddio arian Datblygu Gwledig i roi prosiectau amgylcheddol ar waith.

Ar ôl clywed y dystiolaeth, daeth yn amlwg i ni fod angen i'r aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau fod â'r hyblygrwydd i ddiffinio gwaith amaethyddol gan ystyried amgylchiadau cenedlaethol a rhanbarthol. Dylai'r Comisiwn Ewropeaidd wedyn gymeradwyo'r diffiniad hwn.

**Rydym yn argymell bod yr aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau'n cael yr hyblygrwydd i benderfynu ar y diffiniad o ffermwr actif sydd fwyaf addas i'w anghenion lleol. I sicrhau cysondeb drwy'r UE byddai angen sicrhau cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd i'r 27 ddiffiniad cenedlaethol a rhanbarthol.**

**Hyblygrwydd rhwng y colofnau (Erthyglau 14)**

Clywsom wahanol safbwyntiau am ganiatáu i'r aelod-wladwriaethau drosglwyddo arian o Golofn 1 i Golofn 2, ac i'r aelod-wladwriaethau cymwys, gan gynnwys y DU, drosglwyddo arian o Golofn 2 i Golofn 1.

Rydym yn teimlo ei bod yn hanfodol bwysig i'r rhanbarthau, yn ogystal â'r aelod-wladwriaethau, fod â'r pŵer i drosglwyddo arian o'r naill golofn i'r llall. Rydym yn teimlo bod yn rhaid i'r cynigion nodi'n glir bod yr hyblygrwydd hwn ar gael i'r rhanbarthau. Nodwn fod y gallu i drosglwyddo arian o Golofn 1 Golofn 2 wedi bod yn hanfodol i Lywodraethau'r DU a Chymru sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer datblygu gwledig, gan fod y swm a ddyrannwyd i'r DU ar gyfer datblygu gwledig yn y gorffennol wedi bod yn isel (byddwn yn dychwelyd at y mater hwn yn ddiweddarach).

Roedd bron yr holl dystiolaeth a glywsom yn nodi y dylai'r hyblygrwydd i drosglwyddo arian barhau i fod yn ddewis gwirfoddol ac rydym yn cytuno â'r farn honno.

**Taliadau i ardaloedd sydd â chyfyngiadau naturiol (Erthygl 34-35) / Cymorth Cysylltiedig Gwirfoddol (Erthyglau 38-39)**

Rydym o blaid parhau i gynnwys y rhain, fel dewisiadau gwirfoddol i'r aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau. Clywsom dystiolaeth y gallent fod yn ffordd werthfawr o liniaru effaith y broses o drosglwyddo i daliadau seiliedig ar arwynebedd.

**Taliadau i Ffermwyr Ifanc (Erthyglau 36-37)**

Rydym o blaid yr egwyddor o helpu newydd-ddyfodiaid ifanc i'r sector amaethyddol. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, y gallai'r cynllun a gynigir ar hyn o bryd roi newydd-ddyfodiad dilys dros 40 oed dan anfantais. Rydym yn teimlo y dylid cefnogi newydd-ddyfodiaid o bob oed. Gan hynny, rydym yn cynnig y dylid dileu erthygl 36.2(b); byddai hyn hefyd yn helpu i ehangu'r cymorth i sicrhau hawliau i bob newydd-ddyfodiad, nid dim ond y rheini dros 40 oed.

Gwelliant a gynigir

Dileu 36.2 (b)

**Cynllun Ffermwyr Bychain (Erthyglau 47, 48, 49 a 51)**

Dywedodd y grwpiau amgylcheddol ac undebau'r ffermwyr wrthym eu bod yn pryderu am y cynigion ar gyfer cynllun ffermwyr bychain a hynny am ddau brif reswm; ni fyddai'r diffiniad o ffermwr actif yn cael ei ddefnyddio yn y cynllun ac ni fyddai ffermwyr bychain yn gorfod cadw at amodau trawsgydymffurfio.

Clywsom gryn dipyn o bryder na fyddai'r rhai a fyddai'n hawlio taliadau o dan y cynllun yn gorfod cadw at ofynion trawsgydymffurfio yn enwedig gan nad oes cyfyngiadau o ran maint y ffermydd a all wneud cais. Dywedodd undebau'r ffermwyr wrthym y byddai hyn yn cosbi ffermydd mawr. Roedd y grwpiau amgylcheddol, ar y llaw arall, yn canolbwyntio ar effaith ffermydd llai ar yr amgylchedd, gan ein hatgoffa am yr argyfwng clwy'r traed a'r genau, a ddechreuodd ar ffermydd bach.

Gan na fyddai'r diffiniad o ffermwr actif yn cael ei ddefnyddio yn y cynllun, roedd rhai'n poeni y byddai hynny'n arwain at lu o geisiadau gan bobl nad amaethyddiaeth yw prif ffynhonnell eu hincwm. Nododd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yr hyn a ddigwyddodd yn Lloegr ar ôl cyflwyno'r taliadau seiliedig ar arwynebedd, pan wnaethpwyd llu o daliadau i bobl a oedd yn cadw merlen mewn cae.

Rydym yn cytuno â'r holl randdeiliaid y dylai pawb sy'n rhan o'r cynllun ffermwyr bychain fodloni gofynion trawsgydymffurfio.

Roedd y rhanddeiliaid yn deall yr egwyddor a'r ymresymiad y tu ôl i'r egwyddor. Rydym yn cytuno â barn gyffredinol yr ymatebwyr, sef y dylai'r cynllun ffermwyr bychain fod yn wirfoddol, yn hytrach na'r orfodol, er mwyn rhoi digon o hyblygrwydd i'r aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau benderfynu a yw'r cynllun yn addas i'w hanghenion lleol nhw.

Gwelliannau a gynigir:

- Ychwanegu is-gymal at Erthygl 47 yn nodi y gall aelod-wladwriaethau roi cymorth i ffermwyr bychain o dan yr amodau a osodwyd yn y Teitl hwn
- Newid Erthygl 92 yn y Rheoliad Cyllido, Rheoli a Monitro, gan ddileu'r ail baragraff sy'n nodi na fydd Erthygl 91 yn gymwys i'r rhai sy'n cael taliadau o dan y Cynllun Ffermwyr Bychain.

**Rheoliad Datblygu Gwledig**

**Cyllideb Datblygu Gwledig**

Rydym yn pryderu'n arw am y swm isel a ddyrannwyd yn y gorffennol i'r DU, ac felly i Gymru, fel cyllideb Datblygu Gwledig ac yn credu bod yn rhaid i hyn newid. Mae'r DU a Chymru yn cael llai o gymorth na neb arall yn yr UE ar gyfer datblygu gwledig. Ni all hyn barhau. Rydym wedi amlygu hyn fel un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yn ei thrafodaethau.

Yn y gorffennol, cafwyd llawer iawn o fodiwleiddio gwirfoddol i wneud iawn am y diffyg sylweddol yn y cyswllt hwn.

Rydym yn disgwyl y bydd y rheoliadau gweithredu, a fydd yn amlinellu'r meini prawf dyrannu, yn cael eu cyhoeddi ddechrau 2012.

Rydym yn teimlo'i bod yn hanfodol bwysig fod y meini prawf a ddefnyddir yn ystyried yr holl arian a wariwyd yn y gorffennol gan aelod-wladwriaethau a rhanbarthau unigol ar ddatblygu gwledig, a bod yn rhaid i hyn gynnwys arian wedi'i fodiwleiddio hefyd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau'n cael swm sy'n adlewyrchu eu hanghenion nhw a'u hymrwymiad i gynlluniau Colofn 2. Mae oddeutu 75 y cant o gyllid datblygu gwledig yng Nghymru wedi'i wario ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y gorffennol ac nid ydym am weld y gyllideb ar gyfer y

cynlluniau hyn, a'r canlyniadau amgylcheddol pwysig sy'n deillio ohonynt, yn gostwng oherwydd gwendidau yn y modd y caiff cyllid Colofn 2 ei ddyrannu.

**Rydym yn argymell bod y meini prawf ar gyfer dyrannu'r gyllideb ar gyfer datblygu gwledig yn cael eu seilio ar yr holl arian (gan gynnwys arian wedi'i fodiwleiddio) a wariwyd yn y gorffennol ar ddatblygu gwledig gan aelod-wladwriaeth neu ranbarth.**

**Gwariant sylfaenol ar yr amaeth-amgylchedd**

Rydym yn sylwi bod y rhaglith i'r Rheoliad Datblygu Gwledig yn nodi y dylid gwario isafswm o 25% ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Rydym o blaid hyn, ond yn teimlo y dylid ei gynnwys yn y testunau deddfwriaethol i sicrhau cysondeb drwy'r UE.

Gwelliant a gynigir:

- Cynnwys cymal newydd o dan Erthygl 29 yn nodi bod yn rhaid gwario o leiaf 25% o arian datblygu gwledig ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

**Cyllido, rheoli a monitro Rheoliad [Llorweddol] y PAC**

**Symleiddio**

Rydym yn ymwybodol mai un o amcanion craidd y Comisiwn Ewropeaidd o safbwynt y cynigion newydd, yw symleiddio'r PAC. Roedd nifer o randdeiliaid allweddol yn teimlo'n bur rhwystredig nad yw'r cynigion presennol yn manteisio ar y cyfle i wneud hynny. Mae'r gwelliannau rydym yn eu cynnig yn ystyried yr angen i symleiddio'r PAC a gobeithio y byddant yn helpu i symleiddio'r cynigion.

Rydym yn cytuno, fodd bynnag, â'r dystiolaeth a glywsom am y gwaith ychwanegol sydd ei angen i symleiddio'r rheoliadau.

**Trawsgydymffurfio (Erthyglau 91-95) a Rheolau Trawsgydymffurfio Atodiad II**

Fel y nodwyd yn gynharach, rydym yn awgrymu y dylid cyflwyno gwelliant i'r rheoliadau trawsgydymffurfio i sicrhau bod ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun ffermwyr bychain yn gorfod cadw at amodau trawsgydymffurfio.

Ar hyd o bryd, rydym yn cytuno â safbwynt Llywodraeth y DU, fel y'i hamlinellir yn ei Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y dylid adfer y Gofynion Rheoli Statudol i ddiogelu adar a phlanhigion. Rydym, fodd bynnag, yn bwriadu clywed rhagor o dystiolaeth yn ystod cam nesaf ein hymchwiliad, ac mae'n bosibl y byddwn yn ailystyried ein safbwynt yn dilyn hynny.

Gwelliant:

- Dylid adfer y Gofynion Rheoli Statudol i ddiogelu adar a phlanhigion.